**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 11-02 (draft min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **12 Mehefin 2002** |
| **Amser** | **2.00 – 5.00pm** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd** |

**Presenoldeb**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Chris Chapman | Cwm Cynon |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| David Davies | Sir Fynwy |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| Ron Davies (Cadeirydd) | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Alison Halford | Delyn |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Adran Datblygu Economaidd |
| Emyr Roberts | Yr Is-adran Polisi Economaidd |
| John Clarke | Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Caroline Turner | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Phil Gray | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| David Hobbs | ICM |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Tony Hackney | Kronospan Cyfyngedig |
| Dennis Pugh | Kronospan Cyfyngedig |
| Lee Hargreaves | Building Research Establishment |
| Chris Le Breton | Ymgynghorydd ar Ynni |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.**

1. Gwnaethpwyd datganiadau o fuddiant gan Brian Hancock sydd yn gweithio fel Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch, gan Dafydd Wigley sydd yn gyfarwyddwr ar gwmni bach a chan Phil Williams sydd yn ymwneud â chais Amcan 1 ar hyn o bryd.
2. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Christine Gwyther ac Elin Jones. Dirprwyodd Brian Hancock dros Elin Jones.

**Eitem 2: Yr Adolygiad o Ynni – Gwres a Phwer Cyfunol**

1. Croesawodd y Cadeirydd y siaradwyr a'u gwahodd i roi cyflwyniadau byr i'w papurau.
2. Amlinellodd Tony Hackney o Kronospan y materion penodol a wynebai gwmnïau fel ei un ef, yr oedd eu prosesau cynhyrchu'n ynni-ddwys. Yn ogystal â'r problemau yr oeddent wedi'u hwynebu o ran cost gynyddol y tanwydd i'r gwaith Gwres a Phwer Cyfunol, yr oeddent hefyd yn wynebu cystadlu oddi wrth y cwmnïau pwer cenedlaethol am y cyflenwad o goed ailgylchedig a ddefnyddid yn eu proses gweithgynhyrchu. Dywedodd fod ar ddiwydiant yng Nghymru angen cymorth gweithredol, yn enwedig o ran polisïau cynllunio a'r amgylchedd.
3. Amlinellodd Lee Hargreaves yr anawsterau a wynebai ddefnyddwyr Gwres a Phwer Cyfunol yn y blynyddoedd diwethaf hyn. Mantais Gwres a Phwer Cyfunol oedd ei fod yn lleihau gollyngiadau a chostau trydan ac yr oedd llawer o gadwynau gwestai mawr yn cydnabod manteision tymor hir y dechnoleg ac yr oedd mwy a mwy ohonynt yn penderfynu gosod Gwres a Phwer Cyfunol wrth adnewyddu.
4. Dywedodd Chris Le Breton mai Ysbyty Llwynhelyg oedd yr enghraifft orau o hyd o gymhwyso Gwres a Phwer Cyfunol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ond y dylai fod yn un ymysg llawer. Dywedodd fod manteision o hyd o ddefnyddio Gwres a Phwer Cyfunol er gwaethaf y sefyllfa o ran prisiau nwy a thrydan. Teimlai fod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfle cyffrous i gynnwys Gwres a Phwer Cyfunol fel rhan o strategaeth ynni ehangach yn y sector cyhoeddus.
5. Yn y drafodaeth cadarnhaodd Kronospan fod costau ynni ei weithrediadau yn y DU yn fwy o lawer nag eraill o fewn y grwp ledled Ewrop. Ni allent werthu'r hyn a oedd dros ben yn ôl i'r grid cenedlaethol gan fod arnynt angen sicrwydd yn eu cyflenwad ac ni allent roi'r gwarantau angenrheidiol. Eu nod oedd cael sylfaen cynhyrchu pwer ar y safle ar gyfer gwres a thrydan. Dywedasant mai'r cymhelliad

dros Wres a Phwer Cyfunol yn eu diwydiant penodol hwy oedd ei fod yn hawdd ei redeg a'i fod yn darparu ffynhonnell gwres a thrydan ddibynadwy. Y prif anghymhelliad oedd effaith bosibl y newidiadau ym mhrisiau tanwydd ar allu cyffredinol y cwmni i wneud elw. Ar hyd o bryd yr oedd Gwres a Phwer Cyfunol yn rhoi arbediad net i'r cwmni ond fel arall yr oedd hi pan oedd prisiau nwy ar eu huchaf ddiwethaf yn Hydref 2001. Ychwanegodd y gallai'r profiad hwn fod yn arbennig i'w sector diwydiant penodol hwy o ystyried anghenion penodol eu prosesau gweithgynhyrchu.

6. Soniwyd am y gwrthdaro ymddangosiadol rhwng y mentrau o dan WRAP a rhai'r Ymddiriedolaeth Carbon. Dywedodd Kronospan mai dim ond swm penodol o goed a oedd ar gael yn y DU ac er eu bod yn croesawu menter yr Ymddiriedolaeth Carbon yr oedd wedi lleihau'r cyflenwad o goed ailgylchedig a oedd ar gael i'w proses cynhyrchu. Yr oedd hyn yn effeithio hefyd ar ddymuniad Kronospan i fod yn hunanddigonol – os collid eu cyflenwad i gwmnïau cynhyrchu pwer mawr ni fyddai ganddynt fiomas i'w ddefnyddio. Awgrymasant y dylai WRAP a'r Ymddiriedolaeth Carbon gydweithio i ddelio â'r gwrthdaro sydd yn bodoli. Dywedodd Kronospan fod y defnydd o Wres a Phwer Cyfunol wedi arwain at arbedion sylweddol iddynt dan y Dreth Newid Hinsawdd.
7. Ynghylch y defnydd o Wres a Phwer Cyfunol yn y sector cyhoeddus, dywedodd Chris Le Breton ei fod o blaid defnyddio cyllid sector preifat fel a ddigwyddodd yn achos y gosodiad 'trydedd set' yn Ysbyty Llwynhelyg. Mantais hynny oedd ei fod yn trosglwyddo'r risg i'r sector preifat ac yn sicrhau hefyd ei bod yn fuddiol iddynt sicrhau bod y gosodiad yn gwneud elw. Dywedodd nad oedd rheolwyr ystadau'r GIG bob amser yn ystyried costau oes gosodiadau, dim ond y costau cyfalaf dechreuol. Ychwanegodd y dylid cofio mai blaenoriaeth pob ymddiriedolaeth GIG oedd gofalu am ei chleifion.
8. Siaradodd Lee Hargreaves am faint presennol y defnydd o Wres a Phwer Cyfunol yn y diwydiant gwestai ond dywedodd y byddai'r sector ar ei ennill o ledaenu rhaglenni arfer da ar effeithlonrwydd ynni a dywedodd y dylai Ymddiriedolaeth Carbon Cymru gymryd y rôl arweiniol yn hyn o beth gyda chyllid oddi wrth y Cynulliad.
9. Cododd sawl Aelod fater y diffyg hyfforddiant sgiliau yn y sector effeithlonrwydd ynni. Er bod BRE wedi ymdrechu i gynyddu'r ddarpariaeth o hyfforddiant, teimlwyd bod bwlch mawr rhwng y broses academaidd a'r profiad ymarferol a gynigid gan rai cyrsiau Prifysgol. Teimlwyd hefyd fod llawer o gyrsiau peirianneg nad oeddent bob amser yn cadw'n gyfoes â thechnoleg newydd. Cytunodd yr Aelodau fod hyn yn faes y dylid ymdrin ag ef yn yr adroddiad.
10. Dywedodd Chris Le Breton fod cyflwyno'r ymddiriedolaethau GIG wedi cael effaith negyddol ar Wres a Phwer Cyfunol. Bu'r cynnydd mwyaf o ran gosodiadau Gwres a Phwer Cyfunol yn y 1980au pan wnâi'r Swyddfa Gymreig adolygiadau ynni rheolaidd. Fodd bynnag, ers hynny, yr oedd y defnydd o ynni mewn ysbytai wedi codi'n raddol. Dywedodd y dylai'r Cynulliad fod yn fwy rhagweithiol yn ei agwedd at reoli'r ystadau yr oedd ganddo ddylanwad arnynt ac y dylai bennu amcanion i

hyrwyddo gwelliannau.

11. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod goblygiadau Gwres a Phwer Cyfunol o ran yr effaith ar yr amgylchedd a lleihau costau diwydiant. Cytunodd fod nifer y safleoedd o fewn y GIG yn gyfyngedig a chytunodd i godi'r mater gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd y byddai hefyd yn trafod hyfforddiant sgiliau gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.
12. Dywedodd fod Bwrdd Croeso Cymru yn cydnabod yr angen i hybu mwy o effeithlonrwydd ynni a gobeithiai y byddent hwy a'r Ymddiriedolaeth Carbon yn cydweithio ar hyn.
13. Wrth derfynu'r drafodaeth dywedodd y cyflwynwyr eu bod yn teimlo ei bod yn bwysig i fuddsoddwyr yng Nghymru gael cyfarwyddyd pendant ar faterion cynllunio a'r amgylchedd. Gwnaethant hefyd nodi'r posibiliad o ddefnyddio Gwres a Phwer Cyfunol mewn Prifysgolion a charcharau yn ogystal ag ysbytai, a'r cyfleoedd ar gyfer cynlluniau gwresogi cymunedol.

**Eitem 3: Papur ar Faterion Cyllideb**

1. Rhoddodd y Gweinidog gyflwyniad byr i'r papur gan ddweud ei fod yn dymuno clywed barn y Pwyllgor am ei flaenoriaethau cyllideb ac y byddai'n ei hystyried yn ofalus wrth baratoi ei gais i'r Cabinet.
2. Yr oedd rhai o'r Aelodau'n synnu bod papur y Gweinidog yn dechrau â'r hyn a ystyrient yn ddatganiad 'gwleidyddol' a gofynasant a allai gyfiawnhau ei honiad am y 'sefyllfa fwyaf ffafriol o ran trethiant i fusnesau bach'. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi darparu'r wybodaeth hon yn ei adroddiad i'r cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ond ychwanegodd fod hyn yn cyfeirio at wledydd G7 yn unig. Anfonai'r wybodaeth y cyfeiriwyd ati at y Clerc, gan brofi cywirdeb y ffigurau a ddefnyddiwyd. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
3. Holodd un Aelod am nifer y busnesau a oedd wedi cael budd o arian Amcan 1 a chytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at yr Aelod ynghylch hynny. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
4. Yn y drafodaeth canolbwyntiwyd ar Atodiad B i'r papur, a roddai grynodeb o'r ddarpariaeth gynlluniedig gyfredol ar gyfer 2002/03 i 2004/05. Er mwyn cynnig eglurhad, dywedodd y Gweinidog fod y ffigurau am Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n cynnwys y Gronfa Adfywio Lleol, a oedd gynt yn rhan o Grwp Prif Wariant Llywodraeth Leol. Yr oedd y ffigurau alldro am 2001/02 yn cynnwys y ffigurau hynny hefyd er mwyn dangos y duedd gyson.
5. Dywedodd y swyddogion eu bod o'r farn na fyddai'r newid yn y Cynulliad at Gyfrifeg Adnoddau yn cael effaith sylweddol ar y ffigurau.
6. Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch maint y cyllid ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol, nad oedd yn ymddangos yn ddigonol i ddarparu'r holl arian cyfatebol y gellid ei ddisgwyl ar hyn o bryd. Y rheswm am hynny oedd bod yr oedi wrth

wario wedi cynyddu'r ymrwymiad ym mlynyddoedd diweddarach y rhaglen ac am fod gwerth y bunt wedi codi yn erbyn yr Ewro. Cydnabu'r Gweinidog y byddai'r ffactorau hyn yn cael effaith a chytunodd y dylid ystyried y ffigurau am 2003/04 a 2004/05 yn rhai dynodol. Ailddatganodd sicrhad y Llywodraeth na fyddai unrhyw brosiect addas yn methu dim ond oherwydd diffyg arian cyfatebol.

7. Dywedodd y swyddogion eu bod yn paratoi proffil ariannol hyd at 2009. Gofynnodd yr Aelodau a gaent weld cyfrifiadau cyllideb a ddangosai faint y gwariant yr oedd ei angen i osgoi dadrwymo arian yr UE. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog na allai ddarparu'r rhain i'r Aelodau nes bod y negodiadau â'r Trysorlys ar ben. Dywedodd y byddai'n darparu'r wybodaeth ar ôl cwblhau'r Arolwg Cynhwysfawr o Wariant. Yr oedd rhai o'r Aelodau'n synnu bod y ffigurau hyn yn gyfrinachol o ystyried bod y Llywodraeth wedi cytuno na châi'r un prosiect ei wrthod oherwydd diffyg arian cyfatebol. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
8. Mynegwyd pryder ynghylch swm yr arian Amcan 1 i Ymchwil a Datblygu a gâi ei ddyrannu i Gaerdydd, nad oedd yn ardal Amcan 1. Nododd y Gweinidog fod rheolau i ymdrin â'r sefyllfa hon ac y byddid yn eu dilyn yn fanwl. Nodwyd bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi addo gwybodaeth fanwl am hyn ar gyfer y cyfarfod nesaf.
9. Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar y diffyg cyllid yn rhai o raglenni'r Cronfeydd Strwythurol a holasant ynghylch y cyfle i drosglwyddo arian rhwng yr elfennau i gyfateb â'r galw. Dywedodd y swyddogion fod cyfle cyfyngedig i wneud hyn – ond ychwanegasant nad oedd yn hawdd canfod y rhaglenni a oedd yn tanberfformio yn gynnar am fod y gwariant yn cronni ar wahanol gyfraddau. Cyfeiriwyd at y strategaeth cyfradd geni busnesau newydd fel un rhaglen o'r fath, y disgwylid i'r gwariant ar ei chyfer gynyddu'n gyflym ar ôl y flwyddyn gyfredol.
10. Cyfeiriwyd at y datganiad a oedd i ddod gan y Gweinidog ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu band llydan a gofynnodd yr Aelodau a oedd cyllid wedi'i ganiatáu ar gyfer hyn yn y gyllideb a ddangosid yn Atodiad B. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi ei ystyried yng nghylch cyllideb y llynedd a mynegwyd syndod gan rai o'r Aelodau fod y cynnydd arfaethedig mor fach. Yr oedd yn amlwg y byddai'n rhaid ystyried hyn yn ofalus pan ddeuai cynigion y Gweinidog ymlaen. Er hynny, yr oedd y Pwyllgor yn gytûn yn eu cefnogaeth i ymrwymiad y Gweinidog i'r band llydan.
11. Casgliad yr Aelodau ar sail y drafodaeth oedd nad oedd y ffigurau a gyflwynwyd yn Atodiad B yn ddigon manwl iddynt allu cynnig barn bendant i'r Gweinidog am ei flaenoriaethau. Dywedodd y swyddogion fod gwybodaeth fanylach ar gael ar y Fewnrwyd ac y câi ei darparu i'r Pwyllgor. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ystyried y posibiliad o gael trafodaeth fyr bellach ar hyn cyn dyddiad cau'r Gweinidog dros Gyllid. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd/Y Clerc/ Y Cadeirydd]**

**Eitem 4: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**

1. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad byr ar lafar ar yr arolwg diweddar a wnaethpwyd gan Fwrdd Croeso Cymru ar berfformiad y diwydiant twristiaeth dros benwythnos Gwyl Banc y Jiwbilî. Mae wedi'i gysylltu wrth ei adroddiad ysgrifenedig.
2. Mynegodd un Aelod bryder ar ôl y cyhoeddiad bod 90 o swyddi i'w colli yn Thermomax yn rhannol o ganlyniad i'r gwanhau yn y farchnad i baneli ynni'r haul yn yr Almaen ac effeithiau gwendid yr Ewro. Dywedodd y Gweinidog fod y Cwmni'n cadw ei weithrediad ymchwil a datblygu yn y gwaith a'i fod yn gobeithio adennill ei farchnad a datblygu yn y dyfodol.
3. Ynghylch twristiaeth, tynnodd un Aelod sylw at bwysigrwydd gwrthweithio'r delweddau ystrydebol a geir o'r Cymoedd a'r angen am lety o ansawdd da. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn cydnabod yr angen i ddod â thwristiaeth i'r ardaloedd llai traddodiadol yng Nghymru a bod £1 filiwn o becyn Corus wedi'i neilltuo i'r diben hwn. Ynghylch y cofrestriad statudol arfaethedig, dywedodd fod 80 y cant o'r gweithredwyr twristiaeth yn yr ymgynghoriad o blaid y cynllun ond y byddai'n ystyried y materion a godwyd mewn cysylltiad â'r angen am hyblygrwydd yn y meini prawf cyn penderfynu'n derfynol ar y cyd â Bwrdd Croeso Cymru.
4. Galwodd un Aelod am i Brif Weinidog Cymru wneud ymdrechion pellach i gwrdd â Rheolwr Gyfarwyddwr Friction Dynamics. Dywedodd y Gweinidog na allai wneud sylw ar y mater cyn y tribiwnlys diwydiannol ond gallai gadarnhau y byddai'n siarad â Phrif Weinidog Cymru ar y mater hwn.
5. Cododd sawl Aelod fater y pwysau a geir ar dir datblygu mewn rhai rhannau o Gymru gan ddweud, er bod croeso i'r swyddi newydd, y gallai gorddatblygu roi pwysau ar wasanaethau lleol ac nad oedd yn cynnig unrhyw amddiffyniad i bobl a oedd yn byw yn yr ardal eisoes. Cytunodd y Gweinidog fod pwysau'n bodoli mewn rhai rhannau o Gymru a dywedodd fod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy. Yr oedd darparu tir ar gyfer datblygu'n fater i'r awdurdodau cynllunio'n bennaf.

**Eitem 5: Adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig – Cyllid Ewropeaidd Amcan 1 i Gymru**

1. Dechreuodd y Gweinidog y drafodaeth drwy gyfeirio at ei bapur, a roddai ymateb cychwynnol Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adroddiad. Dywedodd ei fod yn croesawu'n gyffredinol y neges gadarnhaol a gyflwynodd y Pwyllgor Materion Cymreig ac, er ei fod yn cydnabod eu pryderon am yr amser a gymerid i gwblhau trafod ceisiadau, nododd eu bod yn eu cwblhau'n agos i'r dyddiadau cau. Dywedodd y byddai'n croesawu barn y Pwyllgor a fyddai o gymorth yn yr ymateb i'r adroddiad.
2. Dywedodd Chris Chapman, Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1, ei fod yn adroddiad calonogol at ei gilydd gyda rhai beirniadaethau adeiladol. Dywedodd eu bod yn gweithio ar lawer o'r materion hyn yn barod ac y byddid yn anfon yr adroddiad i'r Pwyllgor Monitro Rhaglen. Dywedodd ei bod yn dymuno talu

teyrnged i'r staff yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru am eu gwaith rhagorol a phwysleisiodd mor bwysig oedd cael prosiectau o ansawdd da. Er cydnabod y dyddiad cau, ni ddylid cadw ato'n slafaidd os gellid gwella prosiect o gael mwy o amser.

3. Bu rhywfaint o drafodaeth am locws y Pwyllgor Materion Cymreig mewn cysylltiad â maes gwaith a oedd wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol. Credai'r Aelodau y byddai'n well i Bwyllgor Seneddol ganolbwyntio ar faterion sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Ysgrifennydd Gwladol, fel cyllidebau a rheolau cymorth gwladol, ac yn y blaen. Yr oeddent yn meddwl tybed a oedd yn briodol i'r Pwyllgor Materion Cymreig archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar weithredu swyddogaeth a ddatganolwyd. Fodd bynnag, nodwyd bod gan Bwyllgor Dethol hawl i wysio rhai i ymddangos o'i flaen a'i fod yn rhydd i ystyried beth bynnag a ddymunai. Yr oedd y sefyllfa'n galw am arfer rhywfaint o synnwyr cyffredin.
4. Nododd yr Aelodau gefnogaeth y Pwyllgor Materion Cymreig i ddatblygu cymhorthion gweithredu a holasant am y cynnydd arnynt. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn parhau i weithio arnynt ac i bwyso ar y Trysorlys. Fodd bynnag, nid oedd mewn sefyllfa i allu dweud pryd y digwyddai rhywbeth cadarnhaol.
5. Mewn ymateb i gwestiwn am yr oedi wrth brosesu ceisiadau, dywedodd John Clarke fod oedi wedi bod ar y dechrau oherwydd ffactorau fel cromlin dysg y staff a'r partneriaethau a'r nifer fawr o geisiadau a gafwyd yn y cylch ymgeisio agoriadol i Amcan 1 ym Medi 2000. Fodd bynnag, nid oedd y naill na'r llall o'r ffactorau hyn yn berthnasol yn awr a chadarnhaodd nad oedd staffio yn peri oedi.
6. Cyfeiriwyd at 'gydariannu' prosiectau, a weithredai yn Lloegr drwy'r Adran Addysg a Sgiliau. Yr oedd y dull gweithredu hwn yn arwain at broses ymgeisio symlach a oedd yn cynnwys darparu arian cyfatebol. Dywedodd yr Aelodau ei bod yn ymddangos bod arian cyfatebol o'r fath yn dod yn syth o'r Trysorlys ac, yn achos rhanbarth yn Lloegr, ymddangosai ei fod yn annibynnol ar unrhyw gyllid ar gyfer gwariant Llywodraeth arall yn yr ardal. Ar y llaw arall, yng Nghymru yr oedd yn rhaid talu am gynnydd mewn arian cyfatebol o'r Bloc gan greu'r angen am ostyngiadau mewn cyllidebau eraill i wrthbwyso hynny. Nodwyd nad oedd y Gweinidog yn gyfrifol am y gyfundrefn ariannu a weithredai yn Lloegr.
7. Gwnaeth yr Aelodau sylwadau am y tystion a holwyd gan y Pwyllgor Materion Cymreig gan nodi eu bod un ai'n Weinidogion neu'n Weision Sifil. Teimlent y gallai'r Pwyllgor fod wedi cael darlun tecach o'r rhaglen Amcan 1 os byddai hefyd wedi siarad â derbynwyr grantiau ac efallai â'r rhai a oedd wedi ymgeisio ac wedi cael eu gwrthod. Teimlwyd y buasai modd rhoi mwy o bwys ar gasgliadau'r adroddiad pe byddai'n seiliedig ar well tystiolaeth.

**Eitem 6: Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol**

1. Cytunwyd bod Cofnodion 22 Mai a 30 Mai yn gofnodion cywir o'r cyfarfodydd.
2. Yr oedd yr Aelodau'n anfodlon ar ymateb y Gweinidog i bwynt gweithredu 4.6 yng nghyfarfod 22 Mai a gofynasant am wybodaeth lawnach am y dadansoddiad

daearyddol o geisiadau Interreg IIIA. Dywedodd y Gweinidog y darparai ragor o wybodaeth pan fyddai ganddo rywbeth mwy sylweddol i'w adrodd. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**